

Sut dylai Cymru gael ei rhedeg

Rydyn ni am wybod beth rydych chi'n feddwl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan y **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen 'Dweud eich dweud: dyfodol cyfansoddiadol Cymru'.

Gorffennaf 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd dal angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Efallai bod hi'n anodd deall geiriau mewn **ysgrifen las drwm**. Gallwch chi siecio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 20**.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu'r **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**. Dyma sut i gysylltu â ni i gael mwy o wybodaeth:

Gwefan: llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru

E-bost: ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru



Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols** gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....4

Dweud eich dweud.....8


Cwestiynau i'ch helpu chi i gael dweud eich dweud.....10

Sut i roi eich barn i ni.....14

Eich hawliau chi.....16

Geiriau anodd.....20

Cyflwyniad



Ni yw'r **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**.



Tîm o bobl broffesiynol ydyn ni sy'n gweithio gyda'n gilydd i edrych ar sut mae Cymru yn cael ei rhedeg nawr a sut y gallai hi gael ei rhedeg yn y dyfodol.



Mae hyn yn golygu pa ran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am beth, pwy sy'n gwneud penderfyniadau, a phwy sydd â'r pŵer i newid pethau.



Mae llywodraeth yn cynnwys Llywodraeth y DU, sydd wedi'i seilio yn Llundain, Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd, a'ch cyngor lleol.



Mae'r tîm yn cael ei redeg gan yr Athro Laura McAllister a'r Dr Rowan Williams.



Mae 9 o bobl eraill ar y tîm. Mae barnau gwahanol gyda nhw, ac maen nhw'n dod o gefndiroedd gwahanol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Llywodraeth Cymru wedi ein sefydlu ni i edrych ar y pethau hyn:

- Pwy sydd â phŵer dros beth yng Nghymru.
- Y rheolau ar gyfer sut mae Cymru yn cael ei rhedeg.
- Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Cymru.
- Pa rannau o fywyd dylen ni allu gwneud ein rheolau a'n penderfyniadau ein hunain amdany'n nhw.



Ar hyn o bryd, mae Cymru yn cael ei rhedeg fel rhan o'r DU. Mae Senedd y DU yn rhoi ychydig o bŵer i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Yr enw am hyn yw **datganoli**.



Ystyr **datganoli** yw bod rhai pwerau wedi symud o Senedd y DU i Senedd Cymru. Mae'n golygu bod yna rai pethau rydyn ni'n gallu gwneud ein penderfyniadau a'n deddfau ein hunain amdany'n nhw. Fel iechyd a gofal cymdeithasol, tai ac addysg.



Mae llawer o bethau yn newid mewn gwleidyddiaeth yn y DU ar hyn o bryd.



Rydyn ni'n dal i weithio allan sut i ddelio â **Brexit** – pan wnaeth Prydain bleidleisio i adael yr **Undeb Ewropeaidd**.



Mae'r **Undeb Ewropeaidd** yn grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd. Gwnaeth y DU bleidleisio i adael y grŵp hwn yn 2016. Cafodd hyn ei enwi'n **Brexit**.



Ac mae **datganoli** dros 20 mlwydd oed. Mae angen edrych arno fe eto i wneud yn siŵr ein bod ni'n cael ein rhedeg yn y ffordd orau ar gyfer pobl Cymru.



Rydyn ni'n edrych ar sut mae Cymru yn cael ei rhedeg nawr. A beth sydd angen cael ei wella.



Rydyn ni'n mynd i edrych ar opsiynau ar gyfer sut gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol.



Byddwn ni'n edrych ar y pwyntiau da a drwg o gael mwy o bwerau. A bod yn fwy annibynnol.



Rydyn ni am glywed gan gymaint o bobl â phosibl.



Rydyn ni am glywed gan bob math o bobl, o bob cwr o Gymru.



Rydyn ni am wybod beth sy'n bwysig i chi, a beth yw eich gobeithion i Gymru.

Dweud eich dweud

Rydyn ni am i chi gael y cyfle i ddweud wrthon ni:



- beth sy'n gweithio'n dda o ran y ffordd mae Cymru yn cael ei rhedeg, yn eich barn chi
- a beth sydd angen newid.



Dyma'r rhan gyntaf o'n gwaith ni i siarad â phobl ledled Cymru.



I'ch helpu chi i feddwl am sut mae Cymru yn cael ei rhedeg, rydyn ni wedi ysgrifennu rhai cwestiynau isod.



Ond rydych chi'n gallu dweud wrthon ni am unrhyw faterion yn ymwneud â sut mae Cymru'n cael ei rhedeg, sy'n bwysig i chi.



Mae'n bwysig iawn bod eich llais yn cael ei glywed. Byd r,down ni'n defnyddio beth rydyn ni'n ei ddysgu i'n helpu ni i ysgrifennu ein hadroddiad ar ddiwedd 2023.



Dywedwch wrthon ni beth sy'n bwysig i chi o ran sut mae Cymru'n cael ei rhedeg. Beth ddylen ni fod yn meddwl amdano fe, yn eich barn chi?

Cwestiynau i'ch helpu chi i gael dweud eich dweud




Dim ond i'ch helpu chi i feddwl am eich atebion mae'r cwestiynau hyn.



Gallwch chi eu hateb nhw neu ddweud wrthon ni am eich syniadau chi.



Bydd beth rydyn ni'n ei ddysgu yn y cam hwn yn ein helpu ni i gynllunio ein gwaith wrth i ni fynd ymlaen.



Hefyd, byddwn n'n defnyddio eich syniadau i ysgrifennu ein hawgrymiadau ni ar gyfer sut dylai Cymru gael ei rhedeg. Ac ysgrifennu ein hadroddiadau terfynol.



Cwestiynau

1. **Beth sy'n fwyaf pwysig i chi am y ffordd mae Cymru'n cael ei rhedeg?**

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae'r ffordd mae Cymru'n cael ei rhedeg yn golygu pa ran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am beth, pwy sy'n gwneud penderfyniadau, a phwy sydd â'r pŵer i newid pethau.



2. **Yn eich barn chi, beth yw'r pethau mwyaf pwysig rydyn ni angen meddwl amdany'n nhw?**



3. **Ar hyn o bryd, mae Cymru yn cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Beth yw cryfderau hyn, yn eich barn chi? Pa rannau o'r system hon rydych chi'n meddwl y dylen ni eu cadw?**



4. **Oes unrhyw broblemau gyda'r ffordd mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd?**



5. Rydyn ni'n cael ein rhedeg gan 3 math o Lywodraeth. Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol – eich cyngor lleol.

Beth rydych chi'n ei feddwl am y ffordd mae pŵer yn cael ei ledaenu ar draws y llywodraethau hyn? Pwy ddylai gael mwy o bŵer? Neu lai?

6. Pan rydych chi'n meddwl am Gymru fel ei gwlad ei hun:



- Ydych chi'n hoffi'r ffordd mae Cymru yn cael ei rhedeg ar hyn o bryd? Mae Cymru yn cael ei rhedeg fel rhan o'r DU. Mae Senedd y DU yn rhoi ychydig o bŵer i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.

- Ddylen ni gael mwy o bŵer a rheolaeth – gyda Senedd y DU â phŵer dros bethau sy'n effeithio ar y DU gyfan yn unig?



- Ddylai Cymru gael rheolaeth lawn i redeg ei hun? A ddylen ni fod ar wahân i'r DU?



- Oes unrhyw ffyrdd eraill o redeg y wlad rydych chi'n gallu meddwl amdanyh nhw?



- Ochr yn ochr ag unrhyw un o'r opsiynau hyn, ddylai cyngorau lleol gael mwy o gyfrifoldebau? Byddai hyn yn golygu y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud yn eich cymuned leol. Pa fath o bethau a ddylai gael eu penderfynu fel hyn?



- 7. Yn gyffredinol, beth sydd fwyaf pwysig i chi o ran sut mae Cymru yn cael ei rhedeg? Oes unrhyw beth arall rydych chi am ei ddweud wrthon ni?**

Sut i roi eich barn i ni



Rydyn ni am barhau i siarad â phobl a chael eich barn chi. Byddwn ni'n cymryd eich atebion hyd at diwedd yr haf 2023.



Hoffen ni gael eich barn i'n helpu ni i gynllunio sut rydyn ni'n gwneud y gwaith hwn, hefyd. Felly, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib.



Erbyn diwedd gaeaf 2022, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am sut mae ein gwaith yn mynd hyd hynny.



Os ydych chi'n anfon barn ar ran grŵp neu sefydliad, dywedwch wrthon ni erbyn pryd rydych chi'n bwriadu gwneud hyn. Bydd hyn yn ein helpu ni i gynllunio ein gwaith ni.



Dywedwch wrthon ni os ydych chi'n ateb drosoch chi eich hun, neu ar ran sefydliad. A plŷs dywedwch ychydig wrthon ni am eich sefydliad chi.



Rydych chi'n gallu anfon eich barn aton ni mewn ysgrifen, mewn fideo, neu fel recordiad llais.

Anfonwch eich barn aton ni drwy:



Lenwi ein ffurflen ar-lein yma: www.smartsurvey.co.uk/s/22MWBF/?lang=654844



Anfon recordiad fideo neu lais gan ddefnyddio ein ffurflen ar-lein yma (Sgrolwch i'r gwaelod, a chliciwch **Choose File**): www.smartsurvey.co.uk/s/22MWBF/?lang=654844



Drwy e-bost: ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru



Drwy'r post:

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ


Eich hawliau chi



Rydyn ni'n dilyn y deddfau diogelu data pan fyddwn ni'n delio â'ch gwybodaeth chi. Mae'r deddfau diogelu data yn rhoi'r hawl i chi:



- Wybod pa wybodaeth sydd gyda ni amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei gweld hi.



- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth amdanoch chi.



- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.



- Gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gyda ni amdanoch chi mewn rhai achosion.



- Symud yr wybodaeth amdanoch chi rywle arall mewn rhai achosion.



- Cwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os hoffech chi wybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yma:



Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Rydych chi'n gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**, hefyd:



Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



Ffôn: 01625 545745 **neu** 0303 123 1113



Gwefan: ico.org.uk



Rydyn ni'n dilyn deddf o'r enw **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR)**, hefyd.



Bydd ein staff yn gallu gweld eich atebion chi.



Weithiau rydyn ni'n gofyn i sefydliadau eraill ein helpu ni i ddeall atebion pobl. Felly, efallai y byddan nhw'n gweld eich gwybodaeth chi, hefyd.



Fel arfer, rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y math o bethau mae pobl wedi'u dweud.



Weithiau mae hyn yn golygu bod manylion pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthon ni os dydych chi ddim am i ni gynnwys eich gwybodaeth bersonol.



Os ydych chi yn ein hadroddiad, mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.



Onid mae gwybodaeth sydd heb gael ei chyhoeddi yn cael ei chadw am 3 blynedd yn unig.

Geiriau anodd

Brexit

Pan wnaeth Prydain bleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Datganoli

Ystyr datganoli yw bod rhai pwerau wedi symud o Senedd y DU i Senedd Cymru. Mae'n golygu bod yna rai pethau rydyn ni'n gallu gwneud ein penderfyniadau a'n deddfau ein hunain amdanyn nhw. Fel iechyd a gofal cymdeithasol, tai ac addysg.

Undeb Ewropeaidd

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd. Gwnaeth y DU bleidleisio i adael y grŵp hwn yn 2016. Cafodd hyn ei enwi'n Brexit.